



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gyfun Gwynllyw
Heol Folly
Trefddyn
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 8JD**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2014

Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn ysgol gyfun ddynodedig Gymraeg i fechgyn a merched 11-18 mlwydd oed a gaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Torfaen. Ar hyn o bryd, mae 989 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 169 yn y chweched dosbarth, o'i gymharu ag 833 adeg yr arolygiad diwethaf. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch eang ac yn darparu addysg cyfrwng Gymraeg ar gyfer disgyblion o awdurdodau lleol cyfagos.

Daw 15% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Fodd bynnag, gan fod y disgyblion yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd, mae pob un ohonynt yn rhugl yn y Gymraeg erbyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd. Mae gan 12.5% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim sydd yn is na'r ffigwr cyfartalog ar gyfer Cymru o 17.7%

Mae 11% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda llai nag 1% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 1996. Mae'r uwch dîm rheoli wedi'i haildrefnu'n ddiweddar. Bellach mae'n cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Gwynllyw yn 2013-2014 yw £4,220. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Torfaen yw £4,977 a'r lleiafswm yw £3,843. Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn y pumed safle o'r saith ysgol uwchradd yn Nhorfaen o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol mewn llawer o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn gyson yn uwch nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg;
- y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol yn y rhan fwyaf o'r gwersi;
- bron pob un o'r disgyblion yn arddangos ymddygiad canmoladwy ac agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu a defnydd yr iaith Gymraeg;
- yr arlwy eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn bodloni anghenion a diddordebau'r ddisgyblion;
- perthynas waith agos a chynhaliol rhwng yr athrawon a'r disgyblion;
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalggar sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn; a'r
- ethos cynhwysol a chynhaliol Gymreig arbennig, sydd yn treiddio i bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth a'r uwch-dîm arwain yn cydweithio'n dda i osod cyfeiriad strategol clir;
- yr ysgol wedi ailstrwythuro ac ehangu'r uwch-dîm rheoli yn ddiweddar, sydd wedi gwella'i gynhwysedd i weithio'n fwy strategol;
- yr ysgol yn meddu ar systemau rheoli perfformiad staff effeithiol i adnabod a bodloni anghenion hyfforddiant y staff ac ymsefydlu athrawon sydd newydd gymhwyso;
- prosesau hunanarfarnu yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol fel bod arweinwyr yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr addysgu yn dda; a
- bod y corff llywodraethol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol yn effeithiol.

Argymhellion

- A1 Gwella perfformiad yn y sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach a'r dangosydd lefel 1 yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Cryfhau eu systemau hunanarfarnu gan sicrhau bod rheolwyr yn arfarnu perfformiad o'i gymharu ag ysgolion tebyg yn drylwyr a bod pob cynllun gwella adrannol yn cynnwys targedau meintiol heriol
- A3 Sicrhau bod gan bob arweinydd ddigon o amser i gyflawni ei rôl yn llawn

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, wedi bod yn uwch nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg. Mae perfformiad yn y dangosydd sydd gyfwerth â 5 gradd A*-C TGAU hefyd wedi bod yn uwch nag mewn ysgolion eraill tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion yn y dangosydd sydd gyfwerth â 5 gradd D-G TGAU wedi bod yn is nag mewn ysgolion eraill tebyg.

Nid oes un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster yn y pedair blynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched dros y pedair blynedd diwethaf yn debyg i'r hyn ydyw mewn ysgolion eraill tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y pynciau craidd wedi eu cyfuno yn gyson yn uwch nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg. Yn ogystal â hyn, mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn gyffredinol yn llai nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg.

Mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio'n gyffredinol yn well nag ydynt mewn ysgolion eraill tebyg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae canlyniadau'r ysgol yn y chweched dosbarth wedi bod, yn gyffredinol, yn well nag ydynt mewn ysgolion eraill tebyg.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd arwyddocaol yn eu medrau ieithyddol Cymraeg, yn enwedig yn eu medrau llafaredd. Ym mron pob gwrs, mae'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn awyddus i ddysgu.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol ac yn arddangos gafael gadarn ar derminoleg pwnc-benodol. Yn y gwersi hyn, mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n gynhyrchiol yn unigol ac mewn paruau neu grwpiau bach. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r disgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau gan eu hathrawon ac yn ystyried safbwyntiau eu cyfoedion yn feddylgar. Yn y gwersi hyn, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cyfraniadau ystyrlon i drafodaethau ac yn dadansoddi ystod o dystiolaeth yn llwyddiannus wrth ddod at gasgliadau. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn cymhwyso eu dysgu blaenorol i sefyllfaoedd anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hyn yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol wrth archwilio agweddau cymhleth o fewn y dystiolaeth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Mae ganddynt eirfa eang ac maent yn mynegi eu hunain yn eglur ar lafar. Maent yn awyddus i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn medru siarad yn huawdl am ystod o destunau.

Mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cywain gwybodaeth berthnasol yn effeithiol o amrywiad o destunau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae ychydig o'r disgyblion yn darllen heb ddigon o fynegiant ac yn oedi wrth ddod ar draws geiriau anghyfarwydd. Mae tua hanner y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda medrau darllen gwan. Dros amser, mae'r rhain yn gwneud cynnydd da iawn mewn grwpiau ymyrraeth.

Ym mron pob pwnc, mae'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig at ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd. Yn y gweithgareddau hyn, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio geirfa eang a chyfoethog ac yn cyflwyno eu syniadau'n mewn modd trefnus a rhesymegol. Mae gan lawer o'r disgyblion afael dda ar y rheolau gramadegol, sillafu ac atalnodi. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r disgyblion yn defnyddio cystrawennau gwallus ac yn gwneud gormod o wallau treiglo a sillafu. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio gormod o eiriau Saesneg wrth ysgrifennu yn Gymraeg. Mae llawer o'r disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt, yn enwedig y bechgyn, yn cyflwyno gwaith sydd yn anhrefnus ac aflêr.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn ystod briodol o bynciau. Mae gan y disgyblion hyn afael gadarn ar reolau sylfaenol adio, tynnu, lluosu a rhannu, a gall y mwyafrif ohonynt gynhyrchu graddfeydd synhwyrol i'w graffiau a phlotio'r rhain yn gywir. Gall y disgyblion hyn ddisgrifio ac esbonio patrymau yn y data yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn gallu dewis y llinell fwyaf addas i'w hychwanegu i graffiau, dehongli'r berthynas rhwng newidynnau a chwestiynu dibynadwyedd eu casgliadau yn ddilys.

Mewn ychydig o wersi, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau na'u gwybodaeth bynciol. Yn bennaf, mae hyn o ganlyniad i ddiffyg her briodol yn yr addysgu.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio â'r achosion prin o fwlio yn gyflym ac effeithiol. Mae bron yr holl ddisgyblion yn arddangos ymddygiad cadarnhaol, hunan hyder ac ymagweddau aeddfed tuag at eu gwaith. Maent yn dangos parch at oedolion ac ymwelwyr ac yn dangos gofal a chonsyrn amlwg tuag at ei gilydd.

Mae cyfraddau gwaharddiadau dros dro yn isel iawn ac ni fu gwaharddiad parhaol am nifer o flynyddoedd.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i fyw bywyd iach, drwy ymarfer corfforol a dewis deiet cytbwys. Mae cyfran uchel ohonynt yn cymryd rhan frwd mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon a ffitrwydd buddiol, gan gynnwys y clwb 5X60.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi dangos cynnydd arwyddocaol dros y tair blynedd ddiwethaf, sydd bellach yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion eraill tebyg. Mae data'r ysgol heb ei ddilysu yn dangos cynnydd pellach mewn presenoldeb eleni o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar y medrau angenrheidiol i symud i'r cam nesaf yn eu haddysg neu i fyd gwaith.

Mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n dda iawn at weithgareddau a digwyddiadau yn y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys eisteddfodau Pont-y-pŵl, a'r Fenni, cyngherddau yn Theatr y Gyngres Cwmbrân ac ymweliadau â chartrefi henoed lleol. Maent yn gwneud cyfraniadau niferus i elusennau lleol a chenedlaethol fel elusen Arch Noa, y Groes Goch, a Thŷ Hafan.

Mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd yr ysgol, er enghraifft, drwy gyfrannu at ddatblygu polisïau gwrth-fwlio a disgyblaeth, a chynnig gwelliannau i'r polisi marcio ysgol gyfan. Mae aelodau o'r cyngor hefyd yn cymryd rhan gweithredol yn y broses i benodi staff. Yn ogystal â hyn, mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco wedi dylanwadu'n helaeth ar ddyluniad yr adeiladau newydd, er enghraifft cynllun y tai bach a'r lleoliad gorau i osod ffenestri i ddal gwres yr haul.

Mewn ychydig o bynciau, caiff ddisgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â'r hyn maent yn ei ddysgu

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae cydweithio cynhyrchiol gyda phartneriaid cyfagos yn galluogi'r ysgol i gynnig cwricwlwm cynhwysfawr sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r disgyblion. Mae arlwy eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg fel mecaneg ceir, cwrs cynorthwydd dosbarth a chyrsiau twristiaeth a hamdden. Mae rhain yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a theithiau addysgol yn cyfoethogi'r profiadau academaidd a diwylliannol yn dda iawn.

Mae cynlluniau priodol ar waith yng nghyd-destun y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac mae'r rhan fwyaf o adrannau wedi adnabod cyfleoedd buddiol yn eu cynlluniau gwaith er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae grwpiau penodol o ddisgyblion yn derbyn cefnogaeth ychwanegol effeithiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae gweithredu grymus i hybu Cymreictod wedi creu cymuned Gymraeg fywiog a llwyddiannus ymhlith y disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ymagweddau cadarnhaol y disgyblion tuag at y Gymraeg. Mae rhyngweithio effeithiol â'r ysgolion cynradd partner wrth bontio yn gosod sylfaen gref i sicrhau defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae cynllunio priodol i sicrhau ymwybyddiaeth addas o faterion ynghylch cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang ar draws y pynciau. Mae'r pwyllgor eco

wedi cael effaith gadarnhaol, er enghraifft drwy drefnu ymgyrch ailgylchu dillad gwastraff, archebu biniau ailgylchu newydd a chodi arian at brosiectau eco yr ysgol.

Addysgu: Da

Nodwedd amlwg ar yr addysgu yw'r berthynas waith agos a chynhaliol rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Mae hon yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymagweddau'r disgyblion tuag at eu gwaith a'u parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ym mron pob un o'r gwersi, mae'r athrawon yn cynnig model iaith effeithiol i'r disgyblion. Mae gan lawer o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn cynllunio'u gwersi'n ofalus i gynnwys ystod o weithgareddau symbylol. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn sicrhau tempo da ac yn defnyddio cyfarpar technolegol yn effeithiol iawn i ategu at brofiadau dysgu'r disgyblion. Mewn llawer o'r gwersi, mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn effeithiol er mwyn profi ac estyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn gwirio cynnydd y disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig cefnogaeth sensitif a buddiol iddynt lle bo'i hangen.

Mewn ychydig o wersi, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel ac nid ydynt yn sicrhau bod y disgyblion bob amser ar waith. Yn y gwersi hyn, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau cynnydd priodol ym medrau'r disgyblion.

Mae bron yr holl athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd. Yn y mwyafrif o achosion, mae sylwadau'r athrawon yn adeiladol ac yn cynnig awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, yn lleiafrif y pynciau, nid yw sylwadau'r athrawon yn ddigon penodol i helpu'r disgyblion wella'u gwaith. Yn ychwanegol, nid yw lleiafrif o athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cywiro neu gwblhau eu gwaith ar ôl iddo gael ei farcio.

Yn y mwyafrif o wersi, defnyddia'r athrawon ystod o strategaethau hunanasesu gan ddisgyblion ac asesu cymheiriaid buddiol er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o sut i wella.

Mae'r ysgol wedi datblygu system drwyadl ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd ar draws yr ysgol ar lefel pwnc, grŵp a disgyblion unigol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro a chefnogi'r disgyblion yn effeithiol.

Derbynia'r rhieni a'r gofalwyr wybodaeth ddefnyddiol ar gynnydd eu plant drwy adroddiadau interim a llawn priodol, ac mewn cyfarfodydd rhieni.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd cyfoethog i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Mae system fugeiliol gref yr ysgol yn cael effaith cadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion. Caiff disgyblion bregus eu cefnogi'n briodol drwy gydweithio agos rhwng yr ysgol ac asiantaethau amlddisgyblaethol.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ehangu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am faterion sy'n berthnasol i'w bywydau. Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i fodloni'r gofynion newydd ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae'r disgyblion yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd buddiol iawn pan fyddant yn dewis cyrsiau cyfnod allweddol 4 ac ôl-16. Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad gyrfaoel diduedd, gan gynnwys rhaglen byd gwaith effeithiol, sy'n cynorthwyo'r disgyblion i wneud penderfyniadau ystyrlon ar gyfer eu dyfodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae'r prosesau pontio cynhwysfawr yn galluogi'r ysgol i adnabod anghenion disgyblion penodol yn gynnar iawn a pharatoi rhaglenni ymyrraeth priodol ar eu cyfer. Caiff cynlluniau addysgol unigol eu llunio ar y cyd â rhieni a disgyblion ac maent yn cynnwys nodau a thargedau sy'n cynnig canllawiau defnyddiol i gefnogi'r dysgu. Mae adolygiadau cynnydd rheolaidd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r rhieni chwarae rhan lawn yn addysg eu plant. O ganlyniad, mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chynhaliol Gymraeg arbennig, sydd yn treiddio i bob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r staff cyfan yn coleddu'r ethos hwn ac yn hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol yr ysgol o 'Cymreictod, Cwrteisi a Chydweithio' mewn modd cyson, sensitif ac hynod effeithiol. Mae hyn yn cael effaith cadarnhaol iawn ar ymagwedd y disgyblion tuag at ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac maent yn sail gadarn i'r naws cartrefol a chroesawgar sydd yn yr ysgol. Mae'r elfen hon o waith yr ysgol yn arwain y sector.

Mae'r ysgol yn sicrhau mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl ac yn herio unrhyw achos o stereoteipio'n llwyddiannus. Mae hi'n hyrwyddo gwerthfawrogiad o amrywiaeth a datblygu ymagweddau goddefgar ymhlith y disgyblion yn effeithiol. Mae adeilad yr ysgol o ansawdd uchel. Mae'r rhan fwyaf o'r dosbarthiadau wedi'u haddurno gyda gwaith y disgyblion a phosteri ac yn cynnig amgylchedd gweithio symbylol. Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu cyfoes o ansawdd uchel yn cynnwys cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae gan yr ysgol adnoddau ymarfer corff a meysydd chwaraeon priodol. Caiff y safle ei gadw'n briodol ac mae cyflwr y toiledau a'r ystafelloedd newid yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth, yr uwch-dîm arwain a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n dda i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar gynnal a chodi safonau cyflawniad, datblygu partneriaethau, lleihau effaith amddifadedd, hyrwyddo Cymreictod a gwella lles disgyblion. Fel tîm, maent yn creu awyrgylch

cadarnhaol yn yr ysgol lle mae'r disgyblion a staff yn parchu ei gilydd, yn mwynhau dysgu ac yn gwerthfawrogi llwyddiant.

Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth a'r uwch-dîm arwain yn allweddol i lwyddiant yr ysgol. Maent yn modelu ac yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ethos Cymraeg yn ffynnu, ansawdd yr addysgu yn uchel a safonau'r disgyblion yn gyffredinol yn dda. Mae'r uwch-dîm arwain yn herio unrhyw achos o danberfformio ymysg y staff yn briodol ac yn rhoi cefnogaeth fuddiol pan fo hyn yn angenrheidiol.

O ganlyniad i'r ailstrwythuro diweddar ar yr uwch dîm arwain, mae rhychwant cyfrifoldebau aelodau'r uwch-dîm yn briodol ac maent bellach yn gweithio'n fwy strategol. Caiff cyfrifoldebau eu dosrannu'n briodol i bob aelod o'r uwch dîm arwain ac i reolwyr canol. Mae cyfrifoldebau'r rheolwyr canol ac adrannau pwnc yn glir ac yn addas. Serch hynny, mae llwyth addysgu ychydig o'r rheolwyr, ar adegau, yn cyfyngu ar yr amser sydd ganddynt i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae cyfarfodydd rheolaidd ar bob lefel. Maent yn canolbwyntio'n briodol ar nodau strategol yr ysgol ac mae rheolwyr yn cofnodi trafodaethau'r cyfarfodydd hyn yn glir. Serch hynny, nid yw cofnodion pob cyfarfod yn cynnwys pwyntiau gweithredu cytunedig.

Mae gan y corff llywodraethol gydbwysedd da o ran profiad a medrau addas ar gyfer eu gwaith. Maent yn deall eu rolau yn dda ac yn gefnogol iawn i'r ysgol a'r staff. Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol ac mae'r corff yn gweithredu fel cyfaill beirniadol yn effeithiol. Mae'r cysylltiad agos a buddiol rhwng y corff llywodraethol a'r adrannau yn sicrhau atebolrwydd. Rhoddodd y corff llywodraethol arweiniad pendant i'r ysgol ynglŷn ag ail strwythuro'r uwch-dîm arwain a rhoi ffocws i flaenoriaethau'r ysgol.

Mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn rhoi pwyslais cyson ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys hybu dilyniant ieithyddol, codi safonau llythrennedd a rhifedd, llwybrau dysgu 14-19 a thaclo effaith tloedi ac amddifadedd.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae gan yr uwch-dîm arwain ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r ysgol wedi diwygio'u prosesau hunanarfarnu a gwella ansawdd yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn wedi cael digon o amser i hyrwyddo gwelliannau mewn ychydig o feysydd, er enghraifft yn y dangosydd sydd gyfwerth â 5 gradd TGAU D-G.

Mae'r broses hunanarfarnu yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth addas. Mae'r arweinwyr ar bob lefel yn arsylwi gwersi'n rheolaidd ac felly maent yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr addysgu yn dda. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn arfarnu perfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg yn ddigon trylwyr. Mae rheolwyr ar bob lefel yn cyflawni archwiliadau priodol o waith y disgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr archwiliadau hyn yn amrywio'n ormodol.

Mae'r ysgol yn casglu barn y rhieni a'r disgyblion ar ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd. Mae wedi ymateb yn briodol i'r dystiolaeth hon, er enghraifft trwy gynnig cyrsiau ychwanegol i'r disgyblion.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cwmpasu holl agweddau'r fframwaith arolygu cyffredinol ac yn amlygu llawer o gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn briodol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac, mewn lleiafrif o'r agweddau, nid oes digon o arfarniad o effaith y ddarpariaeth ar safonau.

Mae gan leiafrif o'r adrannau weithdrefnau hunanarfarnu cryf ac maent yn dadansoddi data perthnasol yn drylwyr a chywir. Mae bron yr holl adroddiadau hunan arfarnu adrannol yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ac yn dynodi meysydd priodol ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r adroddiadau hyn yn rhy ddisgrifiadol.

Mae cyswllt priodol rhwng hunanarfarnu ar lefel ysgol gyfan a'r cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen fanwl sydd yn cynnwys camau gweithredu priodol i ddiwallu blaenoriaethau'r ysgol. Mae mwyafrif y cynlluniau gwella adrannol yn cysylltu'n briodol â'r meysydd i'w gwella a amlygwyd yn yr adroddiadau hunanarfarnu adrannol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys targedau uchelgeisiol priodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r cynlluniau adrannol yn cynnwys targedau meintiol i ganiatáu i reolwyr arfarnu llwyddiant y gweithredoedd a amlinellwyd ynddynt.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi datblygu perthynas waith gref a chynhyrchiol gydag ystod eang o bartneriaethau ac mae hyn wedi cael effaith fuddiol ar ehangder y cwricwlwm, safonau a lles disgyblion.

Mae partneriaeth fuddiol rhwng yr ysgol a'i hysgolion partner cynradd sydd yn arwain at bontio effeithiol iawn. Mae Blwyddyn 6 yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ryngweithio gyda disgyblion hŷn drwy weithgareddau sbri megis helpa drysor y Pasg a'r mabolgampau cynradd. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgartrefu yn yr ysgol yn gyflym. Mae'r trefniadau ar gyfer cyd-safoni asesiadau athrawon yn y pynciau craidd wedi arwain at well ddealltwriaeth o'r meini prawf asesu yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthawr gyda nifer o golegau ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y de ddwyrain. Mae'r partneriaethau hyn yn caniatáu i'r ysgol gynnig ystod eang o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ychwanegu at yr ethos cynhaliol Cymreig sy'n treiddio trwy holl waith y partneriaethau. Mae gan yr ysgol systemau priodol i sicrhau ansawdd y cyrsiau sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol gyda rhieni a'r gymuned leol er mwyn cyfoethogi addysg y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaeth fuddiol gyda Gwasanaeth Iechyd Ysbyty Neuadd Nefyl sy'n cynnig cymorth gweithredol i herio ystrydebu, cynnal cyfweiliadau ffug a hyfforddi disgyblion yn y meysydd trydanol ac arlwyo.

Mae'r Eglwys St Cadog a'r Ganolfan Bywyd Iachus hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ehangu eu profiadau wrth weithio yn y gymuned.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon sydd â chymwysterau priodol i fodloni gofynion y cwricwlwm. Mae bron pob gwrs yn cael ei haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Cefnogir yr athrawon a'r addysgu yn dda gan staff cynorthwyol yn y gwrsi a'r tu hwnt i'r gwrsi. Mae gan bob athro amser priodol i gynllunio, paratoi ac asesu. Mae gan yr ysgol weithgorau proffesiynol priodol i arwain datblygiadau pynciol a bodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae gan yr ysgol systemau rheoli perfformiad staff cadarn. Mae gan bob aelod o staff amcanion unigol perthnasol sy'n cynnwys targedau ar gyfer gwella rhifedd a llythrennedd y disgyblion. Defnyddir y wybodaeth o'r broses hon yn effeithiol i adnabod a bodloni anghenion hyfforddiant y staff ac ymsefydlu athrawon sydd newydd gymhwyso.

Mae gan yr ysgol systemau rheoli cyllid cadarn sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol gan y pennaeth, y bwrsar ac is-bwyllgor cyllid y corff llywodraethol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi bod â gwarged cyllidol rhesymol ers 2010. Defnyddiwyd y cyllid yn dda i wella'r adeiladau, i ehangu adnoddau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu ac i gyflogi athrawon ychwanegol i leihau dyletswyddau addysgu aelodau o'r uwch-dim arwain. Yn sgil y rheolaeth ariannol ofalus, mae adnoddau dysgu o ansawdd da gan yr ysgol i godi safonau yn ôl ei blaenoriaethau. Dosreennir cyllid yn briodol i'r adrannau dysgu yn ôl fformiwla gytunedig. Mae buddsoddiad yn yr adeiladau newydd yn golygu bod y costau ynni a chynnal a chadw dan reolaeth gadarn.

Ar sail perfformiad presennol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Dros y pedair blynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn gyson yn uwch na chyfartaledd y teulu a disgwyliadau wedi eu modelu. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch neu'r chwarter uchaf yn ôl prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y hanner uchaf o ysgolion tebyg yn ôl prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn uwch na'r teulu ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gostwng ers 2011, ac yn 2012 a 2013 mae'n is na chyfartaledd y teulu ac ymhlith yr hanner is neu'r chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi amrywio ers 2010 ond mae'n is na chyfartaledd y teulu yn y ddwy flynedd diwethaf ac yn y chwarter isaf neu'r hanner is o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf ar lefel 2 wedi dangos tuedd gyffredinol o welliant. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae'r perfformiad hwn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn 2013 yn gosod yr ysgol ymhlith y chwarter uchaf o ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar lefel 2 Saesneg wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ac yn yr hanner uwch neu'r chwarter uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi bod yn gyson uwch na'r teulu ac yn yr hanner uwch neu'r chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Roedd gwyddoniaeth ar lefel 2 yn uwch na'r teulu yn 2012 a 2013 ac yn y chwarter uchaf neu'r hanner uwch o ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf.

Gwna'r disgyblion gynnydd boddhaol rhwng y cyfnodau allweddol yn y mwyafrif o'r pynciau.

Mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched dros y pedair blynedd diwethaf yn debyg i'r hyn sydd yn bodoli mewn ysgolion tebyg eraill yn y mwyafrif o'r prif ddangosyddion. Fodd bynnag, yn 2013, mae'r bwlch rhwng y bechgyn a merched yn llai na chyfartaledd y teulu yn y dangosydd lefel 2, Cymraeg lefel 2, Saesneg lefel 2 a gwyddoniaeth lefel 2.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, yn y dangosyddion lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, lefel 2 a'r sgôr pwyntiau gyfartalog wedi'i chapio, mae perfformiad y disgyblion sydd â'r hawl i brydau am ddim yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Nid oes un disgybl wedi gadael yr ysgol yn y pedair blynedd diwethaf yn ddigymhwyster.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ac yn gosod yr ysgol yn gyson yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uwch neu'r chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y Gymraeg ar lefel 5 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, ers 2010, mae'r perfformiad yn gosod yr ysgol ymhlith yr hanner is neu'r chwarter isaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ers 2010 ac yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn chwarter uchaf neu'r hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yn y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu ac, ymhlith y chwarter uchaf ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ers 2010, ac mae'n uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Yn 2013, roedd perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg sydd yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yn y tair blynedd blaenorol ble roedd perfformiad yn y dangosydd hyn yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf neu'r hanner is o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn y Gymraeg wedi bod yn well na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Dros y pedair blynedd diwethaf, roedd perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Ers 2010, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'n debyg i neu'n is na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau am ddim yn y dangosydd pwnc craidd yn amrywio ond yn gyffredinol, mae'n uwch na chyfartaledd y teulu dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth yn uwch na'r teulu yn y dangosydd lefel 3 a'r sgôr pwyntiau gyfartalog ehangach mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Uwchradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
I feel safe in my school	250	85 34%	161 64%	4 2%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		43%	53%	3%	1%	
The school deals well with any bullying	250	62 25%	156 62%	31 12%	1 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		26%	58%	14%	2%	
I have someone to talk to if I am worried	250	137 55%	101 40%	10 4%	2 1%	Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni.
		38%	53%	8%	1%	
The school teaches me how to keep healthy	250	93 37%	131 52%	24 10%	2 1%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		23%	57%	17%	3%	
There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise	250	120 48%	109 44%	21 8%	0 0%	Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		45%	45%	8%	2%	
I am doing well at school	250	100 40%	142 57%	7 3%	1 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		32%	62%	5%	1%	
The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems	249	106 43%	138 55%	5 2%	0 0%	Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau.
		38%	55%	6%	1%	
My homework helps me to understand and improve my work in school	250	72 29%	153 61%	24 10%	1 0%	Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		20%	54%	21%	5%	
I have enough books and equipment, including computers, to do my work	250	137 55%	106 42%	7 3%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		45%	46%	7%	1%	
Pupils behave well and I can get my work done	250	30 12%	176 70%	44 18%	0 0%	Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		10%	57%	27%	6%	

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
Staff treat all pupils fairly and with respect	250	108 43%	119 48%	20 8%	3 1%	Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.
		29%	50%	17%	4%	
The school listens to our views and makes changes we suggest	250	70 28%	153 61%	25 10%	2 1%	Mae'r ysgol yn gwrandao ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu.
		16%	54%	25%	5%	
I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility	250	124 50%	125 50%	1 0%	0 0%	Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosaf fy hun a chymryd cyfrifoldeb.
		34%	60%	5%	1%	
The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life	250	102 41%	132 53%	15 6%	1 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith.
		36%	54%	8%	1%	
The staff respect me and my background	250	123 49%	122 49%	5 2%	0 0%	Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir.
		37%	54%	7%	2%	
The school helps me to understand and respect people from other backgrounds	249	127 51%	116 47%	6 2%	0 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.
		36%	56%	7%	1%	
Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4	79	27 34%	40 51%	12 15%	0 0%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.
		28%	52%	15%	5%	
Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form	65	24 37%	34 52%	6 9%	1 2%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth.
		28%	50%	16%	6%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	113	63 56%	45 40%	4 4%	1 1%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
			43%	50%	4%	1%	
My child likes this school.	113	65 58%	46 41%	1 1%	1 1%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
			46%	48%	4%	1%	
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	113	87 77%	23 20%	2 2%	1 1%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
			49%	45%	3%	1%	
My child is making good progress at school.	113	63 56%	44 39%	4 4%	2 2%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
			45%	48%	4%	1%	
Pupils behave well in school.	110	31 28%	59 54%	12 11%	1 1%	7	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
			21%	55%	11%	3%	
Teaching is good.	111	55 50%	48 43%	4 4%	0 0%	4	Mae'r addysgu yn dda.
			33%	57%	5%	1%	
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	111	74 67%	31 28%	5 5%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
			50%	45%	2%	0%	
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	112	47 42%	49 44%	5 4%	2 2%	9	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
			31%	53%	8%	2%	
Staff treat all children fairly and with respect.	112	54 48%	47 42%	4 4%	1 1%	6	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
			32%	48%	9%	2%	
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	112	54 48%	44 39%	8 7%	0 0%	6	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
			33%	53%	7%	1%	
My child is safe at school.	112	57 51%	49 44%	0 0%	1 1%	5	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
			41%	52%	3%	1%	

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	105	41 39%	47 45%	3 3%	2 2%	12	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		32%	46%	7%	2%		
I am kept well informed about my child's progress.	111	50 45%	43 39%	12 11%	4 4%	2	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		34%	50%	11%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	113	59 52%	47 42%	5 4%	2 2%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		41%	48%	7%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	113	40 35%	47 42%	10 9%	3 3%	13	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		27%	51%	10%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	113	54 48%	51 45%	4 4%	0 0%	4	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddoed yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		36%	53%	5%	1%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	105	42 40%	38 36%	6 6%	0 0%	19	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		26%	46%	8%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	113	60 53%	44 39%	5 4%	0 0%	4	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		35%	50%	9%	2%		
The school is well run.	111	60 54%	43 39%	2 2%	3 3%	3	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		40%	49%	5%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Ceri Jones	Arolygydd Cofnodol
William Gwyn Thomas	Arolygydd Tîm
Huw Collins	Arolygydd Tîm
Anne Morris	Arolygydd Tîm
David Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Euryn Madoc-Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Helen Rogers	Enwebai

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---